# Arolygiad o Bractis Deintyddol Cyffredinol (lle rhoddwyd rhybudd)

Deintyddfa Christopher Dalton

Dyddiad yr arolygiad: 31 Gorffennaf 2017

Dyddiad cyhoeddi: 1 Tachwedd 2017

Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


**Y Rheolwr Cyfathrebu**

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru**
**Llywodraeth Cymru**

**Parc Busnes Rhyd-y-car**

**Merthyr Tudful**

**CF48 1UZ**


Neu drwy


**Ffôn:** **0300 062 8163**

**E-bost:** **hiw@wales.gsi.gov.uk**

**Ffacs:** **0300 062 8387**
**Gwefan:** **www.agic.org.uk**



ISBN Digidol 978-1-78859-382-3



© Hawlfraint y Goron 2017

# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom ........................................................................................ 5

2. Crynodeb o'n harolygiad ................................................................................ 6

3. Yr hyn a ganfuom .......................................................................................... 8

   Ansawdd profiad y claf ....................................................................................9

   Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol ...................................................................13

   Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth ..........................................................20

4. Beth nesaf? ................................................................................................. 22

5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol .................................................... 23

   Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad .24

   Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith ..........................................................25

   Atodiad C – Cynllun gwella.............................................................................26

**Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r corff annibynnol sy'n arolygu ac yn rheoleiddio gofal iechyd yng Nghymru**

# Ein diben

**Gwneud yn siŵr bod pobl yng Nghymru yn derbyn gofal da.**

# Ein gwerthoedd

- **Canolbwyntio ar y claf: rydym yn rhoi cleifion, defnyddwyr gwasanaeth a phrofiad y cyhoedd wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud**
- **Uniondeb: mae ein ffordd o weithredu yn agored ac yn onest**
- **Annibynnol: rydym yn gweithredu a gwneud penderfyniadau gwrthrychol yn seiliedig ar yr hyn a welwn**
- Cydweithredol: rydym yn datblygu partneriaethau effeithiol yn fewnol ac yn allanol
- **Proffesiynol: mae ein dull gweithredu yn effeithiol, effeithlon a chyfrannol**

# Ein blaenoriaethau

**Ein nod trwy ein gwaith yw:**

| | |
|---|---|
| **Darparu sicrwydd:** | **Cynnig safbwynt annibynnol ar ansawdd y gofal.** |
| **Hybu gwelliant:** | **Annog gwelliant trwy adrodd a rhannu arfer da.** |
| **Dylanwadu ar bolisi a safonau:** | **Defnyddio'r hyn yr ydym yn ei ddarganfod i ddylanwadu ar bolisi, safonau ac arfer.** |

# 1. Yr hyn a wnaethom

Cynhaliodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Ddeintyddfa Christopher Dalton, 7 Heol Bishops, yr Eglwys Newydd, Caerdydd, CF14 1LT, ar 31 Gorffennaf 2017.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Bu AGIC yn archwilio sut roedd y practis yn cydymffurfio â Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011, a deddfwriaeth a chanllawiau perthnasol eraill.

Gellir gweld manylion pellach ynglŷn â'n dull o gynnal arolygiadau deintyddol yn Adran 5 ac ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'n harolygiad

Ar y cyfan, gwelsom dystiolaeth bod Deintyddfa Christopher Dalton yn bodloni'r safonau gofynnol er mwyn darparu gofal diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y cleifion yn cael eu trin â pharch, bod gan y practis brosesau priodol ar gyfer sicrhau bod offer yn ddiogel i'w defnyddio, a bod gan y practis amrediad o bolisïau a gweithdrefnau i sicrhau bod gofal yn cael ei ddarparu mewn modd diogel ac effeithiol.

Canfuom fod y gwasanaeth yn gwneud y canlynol yn dda:

- Dywedodd cleifion wrthym eu bod yn fodlon ar y gwasanaeth a ddarperid
- Gwelsom fod offer a'r ystafelloedd triniaeth i'w gweld yn lân, yn daclus, ac wedi'u cynnal a'u cadw'n dda
- Dangosodd y staff broses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol
- Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael a oedd yn dangos bod offer pelydr-X a chyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio â'r nod o hyrwyddo diogelwch staff a chleifion
- Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi gan uwch-staff a thîm ehangach y practis

Gwnaethom argymell y gallai'r gwasanaeth wella'r canlynol:

- Roedd angen arddangos rhywfaint o'r wybodaeth ar gyfer cleifion yn fwy eglur
- Gwneud trefniadau i fin gwastraff hylendid benywaidd fod ar gael
- Mwy o wiriadau rheolaidd a dull o gofnodi cyffuriau ac offer i'w defnyddio mewn argyfwng yn unol â'r canllawiau cenedlaethol
- Cadarnhau i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch defnyddio offer radiograffig ar y safle
- Trefniadau ar gyfer adolygiadau clinigol gan gymheiriaid

- Agweddau ar gadw cofnodion cleifion

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Cefndir y gwasanaeth

Practis deintyddol preifat yn unig yw Deintyddfa Christopher Dalton.

Mae tîm y practis yn cynnwys un deintydd, un nyrs ddeintyddol, rheolwr practis (sy'n nyrs ddeintyddol gymwysedig), a chyflogai gweinyddol. Mae dyletswyddau'r dderbynfa yn cael eu rhannu rhwng y nyrs ddeintyddol a rheolwr y practis.

Darperir amrediad o wasanaethau deintyddol preifat.

## Ansawdd profiad y claf

*Gwnaethom siarad â chleifion, eu perthnasau, eu cynrychiolwyr a/neu eu heiriolwyr (lle'r oedd hynny'n briodol) i sicrhau bod safbwynt y cleifion yn ganolog i'n dull o arolygu.*

Gwelsom fod cleifion yn cael eu trin ag urddas, parch a charedigrwydd gan holl dîm y practis. Dywedodd y cleifion a roddodd sylwadau eu bod yn fodlon iawn ar y gwasanaeth a ddarperid gan y practis.

Cyn yr arolygiad, gwahoddwyd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i gleifion, er mwyn cael eu barn ar y gwasanaethau deintyddol a ddarperir. Cwblhawyd cyfanswm o 13 holiadur; roedd bron i ddau draean o'r holiaduron wedi'u cwblhau gan gleifion a oedd wedi bod gyda'r practis ers mwy na dwy flynedd. Gwnaeth un claf ddarparu sylw ychwanegol ynghylch y gwasanaeth deintyddol a ddarperir iddo:

> *"Rydw i wedi bod yn mynd i'r ddeintyddfa hon ers deugain mlynedd. Rydw i bob amser yn fwy na hapus gyda'r deintydd."*

### Cadw'n iach

Canfuom fod amrywiaeth o daflenni gwybodaeth a oedd yn hyrwyddo iechyd ar gael yn y man aros. Roedd hyn er mwyn helpu i hyrwyddo'r angen i gleifion ofalu am eu hiechyd a'u hylendid eu hunain.

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw ynghylch sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

Roedd arwyddion "dim ysmygu" wedi'u harddangos drwy gydol y practis, a wnaeth gadarnhau'r pwyslais ar gydymffurfio â deddfwriaeth adeiladau di-fwg.

### Gofal ag urddas

Gwelsom staff yn siarad â chleifion mewn modd cyfeillgar, parchus a phroffesiynol. Yn ddieithriad, cadarnhaodd pob claf a gwblhaodd holiadur ei fod yn teimlo ei fod wedi cael ei drin â pharch ac urddas wrth ymweld â'r practis.

Cadarnhaodd y practis eu bod yn gallu rhoi preifatrwydd i gleifion pe baent am drafod gwybodaeth bersonol neu gyfrinachol â'r tîm deintyddol, i ffwrdd o'r cleifion eraill.

### Gwybodaeth i gleifion

Roedd y practis yn darparu amrywiaeth o driniaethau deintyddol preifat. Roedd gwybodaeth am brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol ar gael i gleifion ei gweld mewn ffolder yn yr ystafell aros. Er hwylustod i gleifion ac yn unol â'r hyn a argymhellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol,[1] gwnaethom argymell y dylai'r practis arddangos rhestr o'r triniaethau deintyddol mewn lle amlwg. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Cadarnhaodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur fod cost eu triniaeth bob amser yn glir iddynt cyn iddynt dderbyn y driniaeth, ac roeddent i gyd yn cytuno eu bod yn deall sut yr oedd cost eu triniaeth yn cael ei chyfrifo.

Yn ddieithriad, dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur eu bod wedi derbyn gwybodaeth am eu triniaeth ddeintyddol, gan gynnwys yr opsiynau a oedd ar gael. Roedd hyn yn golygu bod cleifion yn gallu gwneud penderfyniad gwybodus ynghylch eu triniaeth.

Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur wrthym eu bod yn teimlo eu bod wedi cael eu cynnwys cymaint ag yr oeddent yn dymuno mewn unrhyw benderfyniadau a wnaed am eu triniaeth.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol er mwyn i'r cleifion gael mynediad hawdd ati.

### Cyfathrebu'n effeithiol

[1] Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol https://standards.gdc-uk.org/

Nid oedd yr un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur AGIC wedi nodi ei fod yn siaradwr Cymraeg, ond dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod yn gallu siarad â staff yn eu hiaith ddewisol. Gwelsom fod rhywfaint o'r wybodaeth, yn bennaf polisi cwynion y practis, hefyd ar gael yn y Gymraeg.

## Gofal amserol

Canfuom fod y practis yn gwneud ymdrechion i sicrhau bod cleifion yn cael eu gweld yn brydlon. Disgrifiodd staff y broses ar gyfer hysbysu cleifion am unrhyw oedi i amser eu hapwyntiad.

Roedd rhif ffôn y tu allan i oriau ar gael i gleifion pe bai angen triniaeth ddeintyddol frys arnynt y tu allan i oriau. Roedd y rhif ffôn ar y peiriant ateb ac yn cael ei arddangos yn ffenestr y practis ac yn ardal aros y cleifion. Dywedodd yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at wasanaethau deintyddol y tu allan i oriau.

## Gofal unigol

### Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth

Gwnaeth yr holl gleifion a wnaeth gwblhau holiadur gadarnhau bod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth. Fodd bynnag, mewn sampl o gofnodion cleifion, ni welsom fod hyn yn cael ei gofnodi'n gyson. Tynnwyd sylw'r deintydd at hyn ar ddiwrnod yr arolygiad a gwnaed argymhelliad i wella'r cysondeb a'r cofnodion ynghylch hanes meddygol cleifion o fewn cofnodion y cleifion.

### Hawliau pobl

Roedd gan y practis ddwy ystafell driniaeth. Roedd un wedi'i lleoli ar y llawr daear ac roedd ail ystafell driniaeth ar y llawr cyntaf, yr oedd angen dringo'r grisiau i gael mynediad ati. Roedd gan y practis ychydig o lefydd parcio yn union y tu allan i'r practis, ar gyfer y cleifion hynny a oedd ag anawsterau symudedd. Roedd yr ystafell driniaeth ar lawr daear y practis yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn a/neu'r rhai hynny ag anawsterau symudedd. Roedd toiled ar gael i'r cleifion ei ddefnyddio, ond nid oedd yn hygyrch i gleifion a oedd yn defnyddio cadeiriau olwyn. Oherwydd lleoliad y toiled, nid oedd yn bosibl cynnwys cyfleuster a oedd yn hygyrch i bobl sy'n defnyddio cadeiriau olwyn.

### Gwrando a dysgu o adborth

Gwelsom fod gan y practis weithdrefn gwyno ysgrifenedig ac roedd ar gael mewn ffolder yn yr ardal aros, er mwyn i gleifion ei darllen. Gwelsom fod y polisi yn cynnwys cyfeiriadau at gyrff allanol y gallai cleifion gyfeirio eu cwynion atynt, ond nid oeddent yn gyrff perthnasol. Gwnaethom argymell bod y practis yn adolygu ei weithdrefn gwyno i sicrhau ei bod yn cynnwys yr wybodaeth gywir a chyfredol, ac y dylai gael ei harddangos mewn lle amlwg i gleifion gael mynediad ati. Mae’n rhaid i'r practis gynnwys manylion cyswllt AGIC yn y polisi cwyno hefyd. Cytunodd y practis i weithredu’r newidiadau hyn.  Dywedodd pob claf a wnaeth gwblhau holiadur ei fod yn gwybod sut i wneud cwyn ynghylch y gwasanaethau mae’n eu derbyn pe bai angen gwneud hynny.

Gwnaethom ganfod bod gan y practis system briodol a oedd wedi'i chofnodi'n fanwl ar waith ar gyfer cofnodi unrhyw gŵynion a dderbyniwyd, gan gynnwys monitro canlyniadau camau a wnaed yn sgil hyn a rhoi adborth i gleifion. Roedd hyn yn golygu bod y practis yn dysgu o'r pryderon a godwyd gyda'r nod o wella ymarfer a phrofiad y claf.

Gwelsom fod cleifion yn gallu rhoi adborth ynglŷn â'r gwasanaethau a ddarperir trwy flwch sylwadau yn ardal aros y practis. Gwelsom fod y practis wedi ystyried yr adborth a ddarparwyd gan gleifion ac wedi cymryd camau i fynd i'r afael ag unrhyw broblemau oedd wedi cael eu lleisio.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai’r practis sicrhau bod ei bolisi cwynion yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol, ei fod yn cynnwys manylion cyswllt AGIC, a'i fod yn cael ei arddangos yn amlwg yn y practis er mwyn i gleifion ei weld yn hawdd.

## Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

*Gwnaethom ystyried i ba raddau y mae gwasanaethau'n darparu gofal o ansawdd uchel, gofal diogel a gofal dibynadwy sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.*

Gwelsom fod y practis yn darparu gofal diogel ac effeithiol i gleifion. Gwelwyd bod adeilad y practis yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda, y tu mewn a'r tu allan.

Dangoswyd proses drwyadl ar gyfer glanhau a sterileiddio offer deintyddol.

Roedd dogfennau a gwybodaeth ar gael i ddangos bod yr offer pelydr-X a'r cyfarpar dadheintio'n cael eu defnyddio mewn modd diogel.

Roedd angen cynnal mwy o wiriadau rheolaidd o'r cyffuriau a'r cyfarpar a ddefnyddir mewn achos brys er mwyn sicrhau eu bod yn cadw at ganllawiau cenedlaethol.

Roedd gwelliannau yn angenrheidiol i rai o'r agweddau ar gadw cofnodion cleifion.

Argymhellwyd proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

### Gofal diogel

#### Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch

Ar y cyfan, gwelsom fod trefniadau ar waith i amddiffyn diogelwch a lles y staff sy'n gweithio yn y practis a'r bobl sy'n ymweld â'r practis. Canfuom fod y practis wedi ei gynnal yn dda y tu mewn a'r tu allan ac roedd yr holl ystafelloedd triniaeth yn lân, yn daclus ac yn drefnus. Ni chodwyd unrhyw bryderon gan gleifion ynghylch glendid y practis deintyddol; roedd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur o'r farn bod y practis deintyddol yn lân iawn.

Roedd offer diogelwch tân ar gael mewn gwahanol leoliadau o amgylch y practis a gwelsom fod yr offer hyn wedi cael eu gwasanaethu o fewn y 12 mis diwethaf i sicrhau eu bod yn gweithio'n iawn.

Gwelsom fod profion dyfeisiau cludadwy wedi cael eu cynnal ar gyfarpar trydanol y practis o fewn y 12 mis diwethaf, i helpu i sicrhau bod yr offer yn ddiogel i'w defnyddio.

Roedd contract ar waith ar gyfer symud a gwaredu gwastraff peryglus (clinigol) a gwastraff domestig a gynhyrchir gan y practis mewn ffordd ddiogel. Gwelsom fod gwastraff peryglus yn cael ei storio'n ddiogel wrth aros i gael ei gasglu gan y cwmni contractwyr. Nid oedd gan y practis gyfleusterau addas ar gyfer cael gwared ar wastraff hylendid benywaidd, a gwnaethom argymell y dylid trefnu darpariaeth addas ar gyfer storio a chasglu gwastraff glanweithiol. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gosodwyd offer didoli amalgam er mwyn tynnu gronynnau amalgam (math o sylwedd deintyddol sy'n cynnwys mercwri) a geir mewn llenwadau deintyddol o ddŵr gwastraff cyn cael gwared arnynt yn ddiogel.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae angen i'r practis sicrhau bod cyfleusterau gwaredu gwastraff ar gael ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd.

## Atal a rheoli heintiau

Roedd gan y practis ystafell ddadheintio benodol a oedd yn llawn offer ac a oedd yn bodloni'r egwyddorion a amlinellir yn nogfen polisi a chyfarwyddyd Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1).[2]

[2] Mae dogfen Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 (Diwygiad 1) yn rhoi canllawiau i weithwyr proffesiynol ynglŷn â dadheintio mewn practisau gofal sylfaenol a phractisau deintyddol cymunedol.

Roedd yr offer dadheintio a'r cypyrddau yn yr ystafell ddadheintio i'w gweld mewn cyflwr da. Roedd arwynebau gwaith a'r llawr yn hawdd eu glanhau er mwyn hwyluso glanhau trwyadl a lleihau croes-heintio.

Roedd gan y practis ddefnydd o un awtoclaf[3] a pheiriant golchi dadheintio,[4] sy'n bodloni canllawiau arfer gorau. Er inni weld ardystiadau arolygu i ddangos bod y peiriant golchi dadheintio yn ddiogel i'w ddefnyddio, nid oedd ardystiad arolygu ar gyfer yr awtoclaf ar gael ar ddiwrnod yr arolygiad oherwydd bod yr arolygiad wedi'i gynnal yn ddiweddar iawn. Gwelsom gadarnhad bod yr arolygiad wedi cael ei gynnal, a gwnaethom ofyn i'r practis anfon y dystysgrif at AGIC ar ôl ei derbyn. Cytunodd y practis i wneud hyn. Gwelsom fod gwiriadau dyddiol yn cael eu cynnal a bod llyfrau cofnodion yn cael eu cadw, fel yr argymhellir gan Femorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, ar gyfer profion ar offer glanhau a sterileiddio, i ddangos eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio.

Dangosodd y staff broses ddadheintio drylwyr, a gwelsom dystysgrifau i ddangos bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ddadheintio. Roedd yr offer yn cael eu cadw mewn bagiau wedi'u selio er mwyn atal croes-heintio.

Canfuom fod y practis yn cynnal nifer o archwiliadau rheoli heintiau yn gyson er mwyn nodi meysydd i'w gwella a'u datblygu fel rhan o'r gwaith monitro cyffredinol ar gyfer sicrhau ansawdd.

### Rheoli meddyginiaethau

Gwelsom fod cyfarpar a chyffuriau ar gael i'w defnyddio yn achos argyfwng claf (claf yn llewygu/cwympo) a'u bod yn cael eu storio mewn bagiau unigol wedi'u selio er mwyn sicrhau ei fod yn hawdd cael hyd iddynt mewn argyfwng. Gwelsom gofnodion hefyd a oedd yn dangos bod y cyffuriau a'r cyfarpar wedi

---

[3] Siambr pwysedd yw peiriant awtoclaf a ddefnyddir i sterileiddio offer a chyflenwadau trwy orfodi ager dirlawn pwysedd uchel arnynt.

[4] Peiriannau golchi dadheintio awtomatig yw'r dull a ffafrir ar gyfer glanhau offer a dyfeisiau meddygol. Mae'r paramedrau cylchred allweddol yn cael eu rheoli'n llawn, y gellir eu hailadrodd, ac mae cofnod o'r cylched fel arfer ar gael drwy argraffiad papur neu gerdyn cof. Mae'r broses wedi'i hawtomeiddio'n llawn. Mae peiriannau golchi dadheintio yn glanhau ac yn dadheintio yn olynol yn ystod proses gylchol.

cael eu gwirio yn rheolaidd a'u bod o fewn eu dyddiad dod i ben. Gwnaethom argymell bod y practis yn sicrhau bod gwiriadau ar yr offer dadebru yn cael eu cynnal yn fwy rheolaidd yn unol â'r safonau a osodwyd gan y Cyngor Dadebru (DU),[5] i sicrhau eu bod yn parhau i fod yn ddiogel i'w defnyddio pe bai eu hangen. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Gwelsom gofnodion a oedd yn dangos bod staff wedi cwblhau hyfforddiant dadebru cardio-pwlmonaidd o fewn y 12 mis diwethaf. Roeddem hefyd yn gallu cadarnhau bod y practis wedi penodi a hyfforddi pobl i wneud cymorth cyntaf pe bai angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a’r offer brys yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan Gyngor Dadebru'r DU.

### Diogelu plant ac oedolion mewn perygl

Roedd gweithdrefn wedi'i sefydlu yn y practis i hyrwyddo ac amddiffyn lles plant ac oedolion sy’n dod yn agored i niwed neu sydd mewn perygl.  Gwelsom fod pob aelod o'r staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn amddiffyn oedolion. Nid oeddem yn gallu gweld cofnod o hyfforddiant cyfredol mewn amddiffyn plant ar gyfer un aelod o staff. Dywedodd y practis wrthym fod yr unigolyn wedi cwblhau'r hyfforddiant, ond nid oedd tystysgrif briodol ar gael. Gwnaethom argymell bod y practis yn sicrhau bod yr holl dystysgrifau hyfforddi yn cael eu cadw gan y practis er mwyn cadarnhau bod gan staff yr wybodaeth ddiweddaraf o ran eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Cadarnhaodd y staff y gwnaethom siarad â nhw eu bod yn teimlo y gallent leisio unrhyw bryderon cysylltiedig â’r gwaith, a'u bod yn hyderus y byddai'r rhain yn derbyn sylw.

---

[5] Sefydlwyd Cyngor Dadebru'r DU i hyrwyddo canllawiau dadebru gwyddonol o ansawdd uchel sy'n berthnasol i bawb, ac i gyfrannu at achub bywydau trwy addysg, hyfforddiant, gwaith ymchwil, a chydweithrediad.

### Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol

Gwnaethom edrych ar yr holl gyfleusterau clinigol (ystafelloedd triniaeth) yn y practis, a sylwi eu bod yn lân ac yn daclus ac yn cael eu cynnal a'u cadw i safon uchel. Roedd y lloriau a'r arwynebau yn yr ystafelloedd triniaeth yn hawdd eu glanhau er mwyn lleihau croes-heintio.

Daethom i'r casgliad bod gan y practis drefniadau ar waith i ddefnyddio offer radiograffeg (pelydr-X) yn ddiogel. Mae hyn am fod y dogfennau a'r wybodaeth ofynnol ynglŷn â defnyddio'r offer pelydr-X yn ddiogel ar gael ac yn gyfredol. Ni welsom gadarnhad bod y practis wedi hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ynghylch defnyddio offer pelydr-X ar y safle. Dywedwyd wrthym fod hyn eisoes wedi'i wneud, ond nid oedd cadarnhad ar gael. Gwnaethom argymell bod y practis yn cadarnhau eto y defnydd a wneir o offer pelydr-X ar y safle i'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch. Cytunodd y practis i wneud hyn. Gwelsom dystysgrifau hyfforddi a oedd yn dangos bod y staff clinigol perthnasol wedi diweddaru eu hyfforddiant ymbelydredd ïoneiddio, a'u bod yn bodloni'r canllawiau a amlinellir gan y Cyngor Deintyddol Cyffredinol.

Gwelsom fod archwiliadau o ansawdd delweddau pelydr-X wedi cael eu cwblhau'n rheolaidd fel rhan o'r gwaith monitro ar gyfer sicrhau ansawdd. Mae'r archwiliadau hyn yn nodi problemau posibl wrth gynnal sganiau pelydr-X, ac yn dangos lle y dylid gwneud gwelliannau os oes angen.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r defnydd o offer pelydr-X yn y practis deintyddol.

## Gofal effeithiol

### Gofal diogel a chlinigol effeithiol

Roedd y practis yn cynnal amrediad o archwiliadau i fonitro ansawdd a diogelwch y gofal a'r driniaeth a ddarperir i gleifion.  Roedd y rhain yn cynnwys archwiliadau clinigol ynghylch Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05, archwiliadau ystafelloedd triniaeth, ac archwiliad mynediad i bobl anabl, er mwyn helpu i nodi meysydd sydd angen eu gwella, a gwiriadau ar yr offer er mwyn sicrhau eu bod yn gweithio'n effeithiol.

### Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi

Nid oedd gan y practis broses ar waith ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid,[6] a allai fod o gymorth wrth gefnogi'r staff i ddatblygu gwelliannau yn y practis. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gyflwyno proses ar gyfer cynnal adolygiadau gan gymheiriaid fel modd o nodi gwelliannau o ran ymarfer.

Yr hyn y mae angen ei wella

Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid.

### Llywodraethu gwybodaeth a thechnoleg cyfathrebu

Gwnaethom nodi bod y dull o storio ffeiliau cleifion yn briodol er mwyn sicrhau diogelwch data cyfrinachol cleifion.

### Cadw cofnodion

Gwnaethom ystyried sampl o gofnodion deintyddol cleifion er mwyn asesu ansawdd y cofnodion. Gwnaethom ganfod bod meysydd i'w gwella er mwyn sicrhau bod cofnodion cleifion yn ddigon manwl.  Roeddent fel a ganlyn:

- Dywedwyd wrthym fod hanesion meddygol yn cael eu gwirio ar lafar yn ystod pob apwyntiad. Fodd bynnag, nid oedd hyn wedi cael ei gofnodi'n ddigonol o fewn cofnodion yr holl gleifion. Pan oedd hanesion meddygol wedi cael eu cofnodi, nid oeddent bob amser wedi cael eu llofnodi gan y claf na'u cydlofnodi gan y deintydd.

- Roedd anghysondeb o fewn y cofnodion ynghylch defnydd cleifion o alcohol a thybaco, ynghyd ag unrhyw gyngor hybu iechyd a roddwyd. Byddai hyn yn dangos bod asesiad o berygl claf o ddatblygu canser y geg wedi cael ei ystyried a bod cyngor wedi cael ei ddarparu ynghylch sut y gellid lleihau hyn.

[6] Mae adolygu gan gymheiriaid yn un o brif safonau gwyddoniaeth ac mae'n broses lle gall gweithwyr proffesiynol gofal iechyd ("cymheiriaid") werthuso ansawdd y gwaith a wneir gan bobl broffesiynol eraill. Gwneir hyn gyda'r nod o sicrhau bod eu hymarfer yn drwyadl ac yn defnyddio ymchwil o'r gorffennol a hyn gyda'r bwriad o ddarparu'r gofal a'r driniaeth orau posibl.

- Roedd cadarnhad o a chanlyniadau archwiliadau periodontol sylfaenol yn cael eu cofnodi'n anghyson.

Trafodwyd y canfyddiadau'n fanwl â'r deintydd a gwnaethom argymell y dylai roi rhaglen adolygu gan gymheiriaid ar waith i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu cofnodion cleifion, yn ogystal â chyflwyno archwiliad o gardiau cofnodion cleifion.

Yn ogystal â hyn, roedd y dull o raddio pelydrau-X yn anghyson, gan ei gwneud yn anodd cynnal archwiliad ansawdd.

### Yr hyn y mae angen ei wella

Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

*Gwnaethom ystyried sut mae gwasanaethau'n cael eu rheoli a'u harwain ac a yw'r gweithle a'r diwylliant sefydliadol yn cefnogi darparu gofal diogel ac effeithiol. Gwnaethom hefyd ystyried sut mae gwasanaethau'n adolygu ac yn monitro eu perfformiad eu hunain yn erbyn Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat a'r safonau proffesiynol perthnasol.*

Roedd un deintydd yn berchen ar y practis ac yn ei reoli gyda chymorth rheolwr practis a thîm staff bach, cyfeillgar a oedd wedi'u hen sefydlu. Gwelsom fod arlwy o bolisïau a gweithdrefnau perthnasol ar waith gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi'n dda gan uwch-staff y practis a'u cydweithwyr. Gwnaethant hefyd ddweud wrthym eu bod yn cael cyfleoedd i fynd i hyfforddiant perthnasol.

Roedd angen iddynt gael tystysgrifau cyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

### Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Mae Deintyddfa Christopher Dalton yn eiddo i un deintydd, ac yn cael ei rheoli ganddo gyda chymorth rheolwr y practis a thîm bach o staff. Mae'r gwaith o reoli'r practis o ddydd i ddydd yn cael ei gyflawni gan y deintydd a rheolwr y practis, sydd hefyd yn nyrs ddeintyddol gymwysedig. Pan wnaethom nodi meysydd i'w gwella, gwnaeth perchennog y practis ddangos ymroddiad i roi sylw i'r rhain yn gyflym.

Roedd tîm y practis yn fach ond eto wedi'i hen sefydlu, a dywedodd y staff a oedd yn gweithio ar ddiwrnod ein harolygiad eu bod yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth yn eu rolau gan holl aelodau tîm y practis. Gwelsom fod y staff yn glir ac yn wybodus ynghylch eu swyddogaethau a'u cyfrifoldebau. Dywedodd staff wrthym eu bod yn teimlo bod cyfathrebu da o fewn y practis. Gwelsom gofnodion o gyfarfodydd tîm a oedd wedi cael eu cynnal yn rheolaidd.

Gwelsom fod amrywiaeth o bolisïau a gweithdrefnau ar waith, gyda'r nod o sicrhau diogelwch staff a chleifion, a bod y rhain yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.

## Staff ac adnoddau

### Y gweithlu

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod staff wedi cael hyfforddiant ar amrywiaeth o bynciau sy'n berthnasol i'w swyddi. Gwnaeth y staff gadarnhau hefyd eu bod yn cael eu cefnogi a'u hannog gan y tîm rheoli i fanteisio ar gyfleoedd hyfforddi. Gwelsom gofnodion hyfforddi staff a chanfod bod mwyafrif y staff clinigol wedi cwblhau hyfforddiant mewn meysydd y mae'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol yn eu hargymell "yn fawr iawn".

Gwelsom fod y staff wedi derbyn arfarniad o'u perfformiad o fewn y flwyddyn ddiwethaf a bod cynlluniau datblygu personol wedi'u llunio o ganlyniad i'r arfarniadau hyn.

Canfuom fod deintyddion a staff nyrsio wedi eu cofrestru i ymarfer gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol a bod yswiriant indemniad ar waith ganddynt.

Roedd cofnodion ar gael a oedd yn dangos bod y staff wedi derbyn brechiadau rhag Hepatitis B, i amddiffyn eu hiechyd eu hunain ac iechyd cleifion rhag heintiau. Gwnaethom argymell y dylai'r practis gadw canlyniadau imiwneiddiadau staff i sicrhau bod cofnodion yn gyflawn. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Roedd y deintydd a oedd yn gweithio yn y practis yn darparu gwasanaethau deintyddol preifat, a gwelsom fod ei dystysgrif cofrestru gydag AGIC wedi'i harddangos yn unol â'r rheoliadau ar gyfer deintyddiaeth breifat. Gwelsom fod y dyddiad wedi dod i ben ar y dystysgrif gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd ar gyfer y deintydd a gwnaethom argymell bod hon yn cael ei hadnewyddu er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r rheoliadau. Cytunodd y practis i wneud hyn.

Yr hyn y mae angen ei wella

Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y deintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat dystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhaid iddo sicrhau ei bod ar gael i'w harolygu gan AGIC.

# 4. Beth nesaf?

Mae'r gwelliannau a'r pryderon uniongyrchol rydym wedi eu nodi yn ystod ein harolygiad y mae gofyn i'r gwasanaeth weithredu yn eu cylch wedi'u manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau'r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol ynghylch diogelwch cleifion lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith gan ddweud wrthym am y camau brys mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle'r ydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella gan ddweud wrthym am y camau mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella:

- Ddatgan yn eglur pryd a sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw, gan gynnwys amserlenni
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth:

- Sicrhau nad yw canfyddiadau'n systemig ar draws mannau eraill o fewn y sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi derbyn sylw

Pan gytunir ar y cynllun gwella, caiff ei gyhoeddi ar wefan AGIC.

# 5. Sut rydym yn arolygu practisau deintyddol

Fel arfer, rydym yn rhoi rhybudd cyn cynnal arolygiad o bractis deintyddol. Bydd practisau deintyddol yn derbyn hyd at 12 wythnos o rybudd cyn arolygiad. Mae hyn fel y bydd trefniadau yn gallu cael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau bod y practis yn rhedeg yn unol â'r arfer, a bod yr arolygiad yn peri cyn lleied o amhariad â phosibl i gleifion.

Mae adborth yn cael ei ddarparu i gynrychiolwyr y practis ar ddiwedd yr arolygiad, mewn modd sy'n cefnogi dysgu, datblygu a gwella ar lefelau gweithredol a strategol.

Bydd unrhyw ddeintydd sy’n gweithio yn y practis sydd wedi’i gofrestru gydag AGIC i ddarparu deintyddiaeth breifat hefyd yn ddarostyngedig i ddarpariaethau Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 a Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) (Diwygio) 2011. Lle bo hynny'n briodol, rydym yn ystyried sut mae'r practis yn bodloni'r rheoliadau hyn, yn ogystal â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 1999, Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Datguddio Meddygol) 2000, ac unrhyw safonau a chanllawiau proffesiynol perthnasol eraill, megis Safonau’r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol.

Mae’r arolygiadau hyn yn cofnodi cipolwg o'r safonau gofal o fewn practisau deintyddol.

Mae manylion pellach am sut mae AGIC yn arolygu practisau deintyddol a gwasanaethau iechyd annibynnol ar ein gwefan.

## Atodiad A – Crynodeb o'r pryderon a gafodd eu datrys yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith (bosibl) ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut y cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon a oedd angen sylw ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | |

# Atodiad B – Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Deintyddfa Christopher Dalton

## Dyddiad yr arolygiad: 31 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y maent yn eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella ar unwaith | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion lle'r oedd angen sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn. | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth:

## Enw (llythrennau bras):

## Swydd:

## Dyddiad:

## Atodiad C – Cynllun gwella

### Gwasanaeth: Deintyddfa Christopher Dalton

### Dyddiad yr arolygiad: 31 Gorffennaf 2017

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maent yn eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| **Ansawdd profiad y claf** | | | | |
| Rhaid i'r practis arddangos rhestr brisiau ar gyfer triniaethau deintyddol er mwyn i'r cleifion gael mynediad hawdd ati. | Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol – Safon 2.4.1 | Mae rhestr brisio wedi'i harddangos ar yr hysbysfwrdd yn yr ystafell aros. | Gaynor Dalton | Ar unwaith ar ôl yr arolygiad |
| Dylai'r practis sicrhau bod eu polisi cwynion yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ei fod yn gywir ac yn gyfredol, ei fod yn cynnwys manylion cyswllt ar gyfer AGIC, a'i fod yn cael ei | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u | Mae'r polisi cwyno wedi ei adolygu ac mae bellach yn cynnwys manylion cyswllt AGIC , ac mae wedi'i arddangos hefyd ar hysbysfwrdd yr ystafell aros. | Gaynor Dalton | Ar unwaith ar ôl yr arolygiad |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| arddangos mewn lle amlwg yn y practis er mwyn i'r cleifion ei weld yn hawdd. | diwygiwyd)<br>Rheoliad 15 (2)<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol – Safon 5.1 | | | |
| **Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol** | | | | |
| Mae angen i'r practis sicrhau bod cyfleusterau gwaredu gwastraff ar gael ar gyfer gwastraff hylendid benywaidd. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (2) | Mae cynhwysydd gwaredu gwastraff hylendid benywaidd bellach wedi cael ei ychwanegu at ein contract gydag SRCL. | Gaynor Dalton | O gasgliad mis Awst ymlaen |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal a'u cofnodi ar y cyffuriau a'r offer brys yn unol â'r canllawiau a amlinellir gan | Rheoliadau Deintyddiaeth | Mae gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal bob wythnos a bob dydd yn unol | Gaynor Dalton | Ar unwaith ar ôl yr |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Gyngor Dadebru'r DU. | Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (2) ac 14 (3) (b) | â gofynion y Cyngor Dadebru. | | arolygiad |
| Rhaid i'r practis hysbysu'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch o'r defnydd o offer pelydr-X yn y practis deintyddol. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 (1) (b) | Nid yw'r Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch yn gallu dod o hyd i fy hysbysiad gwreiddiol o ddefnyddio pelydrau-X yn y cyfeiriad hwn oherwydd yr amser sydd wedi mynd heibio (1976) a symud cofnodion i le canolog. Yn sgil hyn, anfonwyd hysbysiad electronig newydd at yr Awdurdod Gweithredol Iechyd a Diogelwch ac rydw i'n aros i dderbyn cydnabyddiaeth wrthynt. | C Dalton | Ar unwaith ar ôl yr arolygiad |
| Dylai'r practis weithredu proses ar gyfer cynnal adolygiadau clinigol gan gymheiriaid. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 14 | I'w gynnal ar y cyd â'r Athro Edward Lynch a'i gydweithwyr. | C Dalton | O fis Medi 2017 ymlaen |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
| --- | --- | --- | --- | --- |
| | (1) (b) ac 14 (2) | | | |
| Mae'n rhaid i'r deintyddion sy'n gweithio yn y practis wneud trefniadau priodol er mwyn sicrhau bod cofnodion deintyddol cleifion a gwblheir ganddynt yn cael eu cynnal yn unol â'r safonau proffesiynol ar gyfer cadw cofnodion. | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br>Rheoliad 14 (1) (b)<br>Safonau'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol ar gyfer y Tîm Deintyddol – Safon 4 | Mae'r holl argymhellion a wnaed gan swyddogion yr arolygiad ar y diwrnod ac yn yr adroddiad yn cael eu rhoi ar waith ar unwaith. Dywedodd y ddau ohonynt yn ystod yr arolygiad fod hwn yn ganlyniad cadarnhaol. | C Dalton | Dechreuwyd ar ddiwrnod yr arolygiad |
| **Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth** | | | | |
| Rhaid i'r practis sicrhau bod gan y deintydd sy'n gweithio yn y practis ac sydd wedi'i gofrestru gydag AGIC i ddarparu gwasanaethau deintyddol preifat dystysgrif gyfredol gan y | Rheoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) | Yn y broses o gael tystysgrif gyfredol gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd, a fydd yn cael ei hanfon at AGIC cyn gynted ag y byddwn wedi'i | C Dalton | Cyn gynted â phosibl |

| Yr hyn y mae angen ei wella | Rheoliad / Safon | Camau gweithredu'r gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd a rhaid iddo sicrhau ei bod ar gael i'w harolygu gan AGIC. | 2008 (fel y'u diwygiwyd)<br><br>Rheoliad 13, Atodlen 2 | derbyn. | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

## Cynrychiolydd y gwasanaeth

**Enw (llythrennau bras):** **Christopher Dalton**

**Swydd:** **Pennaeth y Practis**

**Dyddiad:** **23 Awst 2017**